# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 16 IONAWR 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | DK Edwards | RM Granville | MJ Kearn |
| DRW Lewis | JC Radcliffe | JC Spanswick | RME Stirman |
| MC Voisey | CA Webster | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, RJ Collins, JE Lewis a/ac KJ Watts

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gareth Denning | Policy Team Leader |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Claire Hamm | Arweinydd Tim Cadwraeth a Dilynio |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

343. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol:

Datganodd y Cynghorydd C Spanswick fuddiant personol yn eitem 8 yr agenda – P/19/531/FUL fel aelod o Gyngor Cymuned Bracla ond nid yw'n cymryd rhan wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

344. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Cytuno ar ddydd Mercher 26 Chwefror 2020 fel y dyddiad ar gyfer yr archwiliadau safle arfaethedig a drafodwyd yn y cyfarfod, neu a adnabuwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd.

345. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2019 fel rhai cywir.

346. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus.

347. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys.

348. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAU

PENDERFYNWYD: Nodi'r crynodeb o Ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau a nodwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

349. P/19/531/FUL - TŶ GWYN, BRIARY WAY, BRACLA, CF31 2PT

PENDERFYNWYD: (1) Caniatáu'r cais cynllunio canlynol, yn unol â'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu.

Cynnig

Cadw estyniad dau lawr gydag ychwanegiad dormer, codi estyniad un llawr a gwaith mewnol cysylltiedig.

(2) Y byddai Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am newid mewn deddfwriaeth gynllunio mewn perthynas â darparu lle amwynder mewn cartrefi gofal.

350. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apeliadau sydd wedi eu derbyn ers cyfarfod olaf y Pwyllgor, fel yr amlinellir yn adroddiad y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu.

| Rhif y Cod: | Testun yr Apêl: |
|---|---|
| A/19/3240278 (1881) | Cadw cynhwysydd dur (a ddefnyddiwyd ar gyfer busnes danfon bwyd) am gyfnod dros dro West Winds, Priory Oak, Pen-y-bont ar Ogwr |
| A/19/3241246 (1882) | Tir ar gyfer uned i'w osod ar gyfer gwyliau hunangynhwysol pren gyferbyn â Fferm Penylan, Abercynffig |
| Heb ddechrau gan yr Arolygiaeth Gynllunio (1883) | Eiddo mewn cyflwr adfeiliedig 2 Heol Ewenni Pen-y-bont ar Ogwr |

(2) Y nodir bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r apêl ganlynol wedi ei ddiswyddo ac mae'r hysbysiad gorfodi'n cael ei gadarnhau

| Rhif y Cod | Testun yr Apêl |
|---|---|
| A/19/3235650 (1868) | Gwaith anawdurdodedig 4 Hendre Avenue, Cwm Ogwr |

(3) Y nodir bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu'r apêl ganlynol wedi ei Ddiswyddo:-

| Rhif y Cod | Testun yr Apêl |
|---|---|
| A/19/3237153 (1872) | Amlinelliad o gais am hyd at 24 o anheddau a thir gweithfeydd cysylltiedig oddi ar Heol Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr |

351. CYFARWYDDYD ERTHYGL 4 A GYNIGIWYD AR GYFER ARDAL GADWRAETH NANT-Y-MOEL (DYNODWYD 10 AWST 1973)

Adroddodd Arweinydd y Tîm Cadwraeth a Dylunio, Prosiectau Adfywio ac Amgylchedd Adeiledig bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) Brys wedi ei wneud mewn perthynas ag Ardal Gadwraeth Nant-y-moel i fynd i'r afael â bygythiad wrth law i gymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth ac adnabod y rheolyddion ychwanegol uniongyrchol dros ddatblygiad a ganiateir o fewn yr Ardal Gadwraeth drwy gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) ac wedi amlinellu camau nesaf y broses.

Rhoddodd wybod i'r pwyllgor bod swyddogion wedi cael gwybod am y gwaith anawdurdodedig mewn perthynas â dymchwel wal ffiniol blaen eiddo heb ei restru o fewn Ardal gadwraeth Nant-y-moel sydd nawr yn destun cais ar gyfer caniatâd Cynllunio a Chaniatâd Ardal Gadwraeth. Dywedodd er bod y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn anawdurdodedig gan fod y wal ffiniol sy'n wynebu'r briffordd yn fwy na 1m o uchder, bod llawer o'r waliau ffiniol cerrig presennol sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal yn is na metr mewn uchder, a bod modd ystyried eu haddasu neu eu dymchwel fel datblygiad a ganiateir. Gall newidiadau cynyddol fel y rhain gael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal ac felly, heb gyflwyno rheolyddion, mae perygl gwirioneddol y gallai'r ardal gael ei heffeithio'n sylweddol o safbwynt materol, y gellid colli gwerth y dreftadaeth adeiledig am byth.

Adroddodd Arweinydd y Tîm Cadwraeth a Dylunio, Prosiectau Adfywio ac Amgylchedd Adeiledig bod Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) wedi ei wneud yn dilyn cael gwybod am y gwaith anawdurdodedig, sef dymchwel y rhan o'r wal ffiniol sy'n wynebu'r briffordd a thriniaeth ffiniol o achos hynny, sydd wedi cael effaith sylweddol ar gymeriad ac edrychiad yr ardal sy'n gosod sail anffodus i berchnogion adeiladau eraill ei ddilyn. Dywedodd, oherwydd yr effaith sylweddol y mae triniaethau ffiniol yn eu cael ar gymeriad arbennig yr ardal, ei bod yn hanfodol bod y Cyfarwyddyd yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl i gynnwys codi neu ddymchwel giât, ffens, wal neu ffordd arall o amgáu o fewn y cwrtil tŷ annedd sy'n wynebu priffordd neu fan agored. Oherwydd y bygythiad wrth law i gymeriad yr ardal, gwnaed Cyfarwyddyd Erthygl 4 (2) a chyhoeddwyd Hysbysiad yn y papur newydd lleol a chyflwynwyd Hysbysiad i berchenogion a meddianwyr y mae'r Cyfarwyddyd yn ymdrin â hwy. Daeth y Cyfarwyddyd i effaith yn syth wedi cyflwyno a chyhoeddi'r Hysbysiad a chafodd perchnogion/meddianwyr y cyfle i wneud cynrychioliadau cyn i Aelodau dderbyn adroddiad pellach cyn cadarnhau'r Cyfarwyddyd. Bydd y Cyfarwyddyd yn terfynu ar ôl chwe mis oni bai ei fod wedi ei gadarnhau gan Aelodau. Mae pamffled drafft wedi ei baratoi a'i anfon i gynorthwyo perchnogion a meddianwyr wrth ddeall goblygiad Cyfarwyddyd Erthygl 4.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

1. Wedi nodi bod Cyfarwyddyd wedi ei wneud dan Erthygl 4(2) Gorchymyn (Datblygiad a Ganiateir Cyffredinol) Cynlluniau Tref a Gwlad 1995 i ddileu hawliau datblygiadau a ganiateir perchnogion a phreswylwyr tai annedd o fewn Ardal Gadwraeth Nant-y-moel, dan y telerau a nodwyd yn Atodiad 2;

2. Yn cytuno bod Aelodau yn derbyn adroddiad pellach a fydd yn cyflwyno unrhyw sylwadau a dderbynnir o ganlyniad i wasanaethu Cyfarwyddyd Erthygl 4(2).

352. ADRODDIAD YMGYNGHORI STRATEGAETH A FFAFRIR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygiad ar Adroddiad Ymgynghori Strategaeth a Ffafrir y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) i'w gyflwyno i'r Cyngor er mwyn cael ystyriaeth a nawdd.

Adroddodd bod Rheoliad 15 o Reoliadau'r LDP yn gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ei gynigion cyn adneuo (Strategaeth a Ffafrir) ar gyfer archwiliad ac ymgynghoriad cyhoeddus cyn pennu cynnwys ei LDP ar gyfer Adneuo. Nododd bod cyfnod ymgynghori statudol y Strategaeth a Ffafrir wedi ei gynnal ar 30 Medi 2019 i 8 Tachwedd 2019 a derbyniwyd cyfanswm o 70 o sylwadau ffurfiol. Wrth baratoi ar gyfer Cam Adneuo'r LDP, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud drafft o Adroddiad Ymgynghori i'w gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol resymol wedi ymgynghoriad cyn adneuo dan Reoliad 16A yr LDP. Rhoddodd wybod i'r Cyngor bod Adroddiad Ymgynghori wedi ei baratoi, yn amlinellu sut mae'r Cyngor wedi ymdrin â chyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffafrir ei hun. Dywedodd bod yr Adroddiad wedi nodi'r camau a gymerwyd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i baratoadau'r cynllun, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS), cyn amlinellu'r cyrff penodol yr ymgysylltwyd â nhw, crynhoi'r prif faterion a godwyd a nodi sut yr ymdriniwyd â'r atebion, neu sut fyddent yn cael eu hymdrin â nhw. Cynigodd yr Adroddiad fanylder sylweddol ynghylch sut fydd y cyfnod allweddol o ymgynghori'n dylanwadu ar ddatblygiad Adneuo'r LDP.

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygiad bod nifer o ddulliau ymgynghori wedi eu defnyddio er mwyn sicrhau ymgynghoriad a chyfranogiad effeithiol ac effeithlon, yn unol â'r CIS. Nododd nad oedd bwriad i'r Adroddiad Ymgynghori fod yn adroddiad cynhwysfawr ar bob sylwad a dderbyniwyd, ond yn hytrach yn grynodeb o faterion allweddol a godwyd mewn ymateb i gwestiynau penodol ar y ffurflen ymgynghori. Roedd nifer sylweddol o gyfranogiadau hefyd yn canolbwyntio ar safle penodol, er nad oedd yr Adroddiad yn ceisio gwerthuso haeddiannau cynhwysfawr safleoedd a oedd wedi eu cynnig. Noddodd y bydd yr holl safleoedd a gynigiwyd yn cael eu gwerthuso fel rhan o Fethodoleg Asesu Safleoedd a Gynigiwyd, sydd ar wahân i'r Ymgynghoriad Strategaeth a Ffafrir. Rhoddodd wybod i'r Cyngor bod yr Adroddiad Ymgynghori wedi ei strwythuro o amgylch bob cwestiwn ymgynghori, yn nodi prif bwyntiau cyfatebol a dderbyniwyd ac yn manylu ar ymatebion dilynol y Cyngor. Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn cynnig trosolwg thematig manwl o'r prif sylwadau a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr.

PENDERFYNWYD: Y nododd y Pwyllgor Rheoli Datblygiad gynnwys Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a bydd Adroddiad yr Ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gfyer ystyriaeth a nawdd ar 22 Ionawr 2020.

353. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT - DATBLYGIAD TAI NEWYDD A CHYFLEUSTERAU HAMDDEN AWYR AGORED

Ceisiodd Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiad gymeradwyaeth i gynghori ar ddogfen drafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) Datblygiad Tai Newydd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored.

Adroddodd fod y Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yn egluro'n fanwl dull y Cyngor ddarparu chwaraeon awyr agored, ardal chwarae i blant, rhandiroedd a mannau agored cyhoeddus (gan gynnwys mannau gwyrdd naturiol hygyrch) ar gyfer pob datblygiad tai newydd a sut y caiff COM11 Polisi LDP ei weithredu. Mae'r SPG yn annog cysylltiadau rhwng darparu ardal agored dan COM11 Polisi a'i gyfraniad i seilwaith gwyrdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Wedi iddo gael ei feithrin, bydd yn cael ei ystyried fel ystyriaeth faterol wrth bennu perthnasedd ceisiadau Cynllunio.

Adroddodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygiad bod y Cyngor yn derbyn nifer uchel o geisiadau bob blwyddyn ar gyfer datblygiadau tai newydd, sy'n creu galw i wella cyfleusterau hamdden presennol a darparu cyfleusterau hamdden newydd. I fodloni'r gofyn hwn, mae Polisi COM11 y LDP yn gofyn bod lefel a safon foddhaol o ddarpariaeth chwaraeon awyr agored, ardal chwarae i blant, rhandiroedd a mannau agored cyhoeddus (gan gynnwys mannau gwyrdd naturiol hygyrch) ar gyfer pob datblygiad tai newydd.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

1. wedi cymeradwyo Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft - Datblygiad Tai Newydd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored (Atodiad 1) ar sail ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 6 wythnos;

2. wedi rhoi caniatâd i Swyddogion ymgymryd â'r ymgynghoriad cyhoeddus ac i adrodd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn cyfarfod Pwyllgor Rheoli Datblygiad.

354. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT - DATBLYGIAD PRESWYL A CHYFLEUSTERAU ADDYSGOL

Ceisiodd Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiad gymeradwyaeth i gynghori ar ddogfen drafft o Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) Datblygiad Preswyl a Chyfleusterau Addysgol.

Er mwyn rhoi cyfle i blant y Fwrdeistref Sirol allu ffynnu a llwyddo, dywedodd fod dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod cyfleusterau addysgol o ansawdd da ar gael a fyddai'n creu cyfle i ddysgu. Hysbysodd y Pwyllgor fod y galw am dai yn y Fwrdeistref Sirol yn cynyddu, a bod nifer fawr o dai yn cael eu hadeiladu i wasanaethu'r galw hwn, gan arwain at roi cyfleusterau addysgol presennol dan bwysau cynyddol i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol sy'n cael eu creu drwy ddatblygu tai. Mae angen i'r system Gynllunio sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i osgoi effaith andwyol ar gyfleusterau a bod darpariaeth ddigonol ar gael i ddiwallu anghenion dysgu plant a phobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygiad fod y SPG Addysg presennol (SPG 16) wedi'u mabwysiadu yn 2010 ac er bod y canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon wedi bod yn llwyddiannus o ran negodi rhwymedigaethau Cynllunio ariannol gyda chyfanswm o dros £5 miliwn, mae angen diweddaru'r fformiwlâu cynnyrch disgyblion a'r canllawiau costau. Bydd yn sicrhau bod lefel y rhwymedigaethau a negodwyd gyda datblygwyr yn adlewyrchu gwir gostau darparu cyfleusterau addysgol sy'n cael eu creu yn ôl galw y datblygiad preswyl newydd. Bydd SPG newydd a diwygiedig yn sicrhau y bydd yr Awdurdod Lleol yn medru parhau i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu plant a phobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod y canllaw drafft yn ategu Polisiau COM10 a SP14 Cynllun Datblygiad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (LDP 2006-21) ac yn bwysicach, bydd y SPG yn cynnig canllaw polisi wedi ei ddiweddaru er mwyn ei gynnwys yn sail tystiolaeth y LDP newydd. Ei ddiben yw cynnig cyngor i ddatblygwyr ar yr amgylchiadau lle dylai'r Cyngor chwilio am gyfraniadau tuag at ddarparu cyfleusterau addysgol ar gyfer datblygiadau preswyl newydd.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau:

1. wedi cymeradwy Drafft SPG 16 - Datblygiad Preswyl a Chyfleusterau Addysgol (Atodiad 1) ar sail ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 6 wythnos;

2. wedi rhoi caniatâd i Swyddogion ymgymryd â'r ymgynghoriad cyhoeddus ac i adrodd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn cyfarfod Pwyllgor Rheoli Datblygiad.

355. CAIS AR GYFER DATBLYGIAD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL GAN ENERGION LTD TIR I'R GOGLEDD O FFORDD FELINDRE, PENCOED ADRODDIAD EFFAITH LLEOL AR RAN YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladau wrth y Pwyllgor am Adroddiad Effaith Lleol sydd wedi ei baratoi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) am ddatblygiad nwy 40MW dros dro (25 mlynedd) ar dir sydd i'r gogledd o Ffordd Felindre, Pencoed. Ystyrir y datblygiad fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a bydd yn cynnwys gorsaf bŵer wrth gefn ar gyfer pan fydd y galw'n uwch na'r capasiti sydd ar gael gan y Rhwydwaith.

Adroddodd mai bwriad y broses DNS yw sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ynghylch ceisiadau cynllunio sydd ag arwyddocâd sylweddol i Gymru oherwydd eu buddion ac effeithiau posibl. Caiff ceisiadau eu cyflwyno i Arolygaeth Gynllunio Cymru er mwyn cael eu hystyried gan Arolygydd penodedig. Bydd yr Arolygydd penodedig yna yn ystyried tystiolaeth o'r cais, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac ymgynghoreion statudol a phartïon eraill sydd â diddordeb. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod y LIR wedi paratoi i roi gwybod i'r Arolygaeth Cynllunio o effeithiau tebygol y datblygiad a gynigiwyd ar yr ardal. Nododd bod yr adroddiad yn ddogfen ffeithiol ac wedi ei seilio ar wybodaeth leol a thystiolaeth o faterion lleol ac mae hefyd cyfle i'r LPA roi sylw ar gais y DNS.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu y bod modd gweld y datblygiad a gynigwyd a bod yr Arolygaeth Gynllunio wedi cyhoeddi'r holl sylwadau a'r LIR ar wefan Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Nododd y bydd yr Arolygydd penodedig nawr yn ystyried y LIR a'r holl sylwadau a dderbyniwyd ac yn penderfynu pa weithdrefn y bydd yr archwiliad o'r cais yn ei ddilyn erbyn 10 Ionawr 2020. Mae gan yr ymgeisydd hyd nes 10 Ionawr 2020 i ofyn am amrywio'r cais ac os yw cais yn cael ei wneud a'i dderbyn, bydd yr archwiliad yn cael ei ohirio.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r LIR.

356. ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN - PERFFORMIAD CYNLLUNIO 2019

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Adeiladu a Datblygu ar ddiweddariad o berfformiad yr Adran yn ystod blwyddyn calendr 2019 mewn cymhariaeth â 2018 a blynyddoedd blaenorol. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor bod yr adroddiad diwedd blwyddyn yn cynnig ffigyrau mwy manylach a diweddarach ar gyfer y gwasanaeth ar faterion fel Adran 106 Cyfranogiadau, Cwynion a Rheoli Adeiladu Nododd bod nifer y ceisiadau Cynllunio penodedig yn 2019 wedi lleihau o 920 yn 2018 i 843 yn 2019 a bod nifer y cynlluniau mawr penodedig wedi lleihau o 23 i 17 yn ystod yr un cyfnod. Crynhodd rhai o bwyntiau allweddol y casgliad o ddata ar gyfer yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

1. Y byddai'r Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad;

2. Y cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar y swm y gwariant yn erbyn Cytundebau S106.

357. COFNOD HYFFORDDIANT

Adroddodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu ar gofnod hyfforddiant wedi ei ddiweddaru.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi'r cofnod hyfforddiant wedi ei ddiweddaru.

358. EITEMAU BRYS

Nid oedd yna unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:52